CYFRES B10

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o lyfr Exodus

Yn y rhifyn hwn, mae "ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th" yn cael eu trin fel dwy lythyren yn y posau, a roddir nhw mewn dau flwch ar wahân.

DARLLENWCH
Exodus 7: 1-24

ADNOD ALLWEDDOL
Exodus 7: 16

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 1 Moses a'r pla cyntaf

Roedd Pharo, brenin yr Aifft, wedi penderfynu. Doedd e DDIM yn mynd i ryddhau'r Hebreaid oedd yn gaethweision iddo.
Gofynnodd Moses sawl tro am iddo eu gollwng, ond yr un oedd ateb y brenin – "Na!" Gwrthododd dalu unrhyw sylw i'r hyn roedd Duw yn ei ddweud wrtho, drwy Ei was, Moses.



C **Pwy oedd brenin yr Aifft?**

P _ _ _ _ _ .

Pwy oedd gwas Duw?

M _ _ _ _ _ .

Rhoddodd Duw i Moses ac Aaron y gallu i wneud pethau rhyfeddol. Trodd ffon Aaron yn sarff - ac yna nôl yn ffon! Roedd hyn yn brawf i Pharo fod Duw yn hollalluog, ac mai Duw mewn gwirionedd oedd wedi anfon Moses ac Aaron ato.

Ond er hynny, gwrthodai'r brenin wrando ar Dduw. Aeth ei galon yn galed ac ystyfnig.

C **Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob llun er mwyn darganfod beth roedd y Brenin Pharo yn gwrthod ei wneud.**

_____ _____ _____ _____ _____ _____ _____ _____

4

Oherwydd ei fod yn gwrthod gwrando, cafodd ef a'i bobl eu cosbi'n ofnadwy gan Dduw. 'Y Pla Cyntaf' yw'r enw ar y gosb hon. (Yn ddiweddarach, anfonodd Duw NAW pla arall!)
Cafodd dŵr Afon fawr y Neil, sy'n llifo drwy'r Aifft, ei droi yn waed. Lladdwyd yr holl bysgod, ac roedd y drewdod yn ofnadwy! Yn waeth na dim, doedd y bobl ddim yn gallu yfed y dŵr. Roedd gwaed ym mhobman drwy'r Aifft am wythnos gyfan.

C **Rhowch linell drwy'r ateb ANGHYWIR yn y brawddegau hyn.**

Neil / Rhein / Amason yw'r enw ar afon yr Aifft.

Lladdwyd pob neidr / aderyn / pysgodyn yn y pla cyntaf.

Roedd hi'n anodd iawn i'r Eifftiaid gael bara / dŵr / ŷd.

6

Rhaid i ni bob tro gofio gwneud fel mae Duw yn dweud yn Ei Air, y Beibl.

Lliwiwch y geiriau.

"Gwell gwrando nag aberth."

6

1 Samuel 15: 22

Enw

DARLLENWCH
Exodus 11: 1-10 a
12: 1-13

ADNOD
ALLWEDDOL
Exodus 12: 13

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 2 Moses a'r pla olaf

Dro ar ôl tro, gwrthododd Pharo ryddhau'r Hebreaid oedd yn gaethweision iddo. Dangosodd Duw Ei allu mawr mewn cyfres o 'blâu' neu 'farnedigaethau'. Hyd yn oed wedyn, roedd Pharo yn gwrthod gwrando pan fyddai Duw yn siarad ag ef drwy Moses ac Aaron.



C Ysgrifennwch UN gair yn ateb i bob cwestiwn.

Pwy oedd brenin yr Aifft? **P** __ __ __ __ .

Gair arall am 'blâu' **B** __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ .

Pwy aeth gyda Moses i siarad â'r brenin? **A** __ __ __ __ .

Dywedodd Duw wrth Moses fod pla olaf ofnadwy ar y ffordd. Byddai mab hynaf (neu 'gyntaf-anedig') pob teulu yn yr Aifft yn marw ar yr un noson! Byddai hyn yn digwydd i bob teulu, o'r cyfoethocaf i'r tlotaf. Dychmygwch y dagrau a'r galar fyddai dros y wlad i gyd!

6

C Gosodwch y llythrennau yn eu trefn ac ysgrifennwch y geiriau yn y bylchau.

Yn y pla **falo** __ __ __ __, byddai'r

tynfcaneidga __ __ __ __ __ __ - __ __ __ __ __ __ ym mhob

utule __ __ __ __ __ yn marw.

6

Pam fod Duw yn mynd i wneud hyn? Yr ateb yw bod Pharo yn ystyfnig ac yn anufudd i Dduw! Mae rhybudd yma i bob un ohonom. Pan fydd Duw yn siarad â ni, dylem wrando ac ufuddhau.

Dywedodd Duw hefyd wrth Moses sut y byddai'r Hebreaid (neu'r Israeliaid) yn gallu cael eu harbed rhag marw o'r pla. Roedd pob teulu i gymryd oen blwydd oed, yna'i ladd a thaenu'r gwaed ar ddau bostyn a chapan drws eu tŷ. Roedden nhw wedyn i aros yn eu cartref tan y bore. Os oedden nhw'n aros yn eu tai, fel y gorchmynnodd Duw, fyddai dim niwed yn dod iddyn nhw, oherwydd roedd Duw wedi addo: "Pan welaf y gwaed byddaf yn mynd heibio i chwi." (Exodus 12 :13, sef yr Adnod Allweddol)

C **Marciwch ar ffrâm y drws yn y llun ble roedden nhw i daenu gwaed yr oen. (Defnyddiwch inc, pensil neu baent coch).**



Cadwodd Duw at Ei addewid, fel arfer. Y noson honno, bu farw meibion cyntaf-anedig yr Eifftiaid, ond gadawyd meibion cyntaf-anedig yr Israeliaid yn fyw. Roedd yr oen bach wedi marw yn lle'r mab hynaf ym mhob un o deuluoedd yr Hebreaid. Oherwydd bod yr oen wedi marw, roedd y bachgen yn cael byw. Mae'r stori hon yn ein helpu i ddeall y gwirionedd hwn - oherwydd bod yr Arglwydd Iesu wedi marw, gallwn ni fyw gydag Ef am byth yn y Nefoedd, os ydym yn ymddiried ynddo Ef!

Mae'r Beibl yn dweud wrthym:

"Bu Crist farw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid."

Rhufeiniaid 5: 8
Lliwiwch y geiriau.

I'r Israeliaid, roedd yr holl flynyddoedd o fod yn gaethweision drosodd. Cawson nhw wledd arbennig o gig oen wedi'i rostio, a bwydydd eraill. Roedden nhw'n barod i adael yr Aifft, cyn gynted ag y dywedai Moses wrthynt. Daeth y pla olaf â thristwch mawr i'r Eifftiaid, ond daeth â llawenydd heb ei ail i'r Israeliaid.

Enw

DARLLENWCH
Exodus 12: 31-39
a 14: 1-31

ADNOD
ALLWEDDOL
Exodus 14: 30

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 3 Moses a'r ddihangfa o'r Aifft

Yn ystod y noson honno, pan fu farw pob mab cyntaf-anedig ymhlith yr Eifftiaid, anfonodd Pharo am Moses ac Aaron. Dywedodd wrthynt am fynd â'u pobl, a'u defaid a'u gwartheg a gadael yr Aifft ar unwaith.
O'r diwedd, roedd Pharo yn ufuddhau i Dduw! Pe bai e ond wedi gwneud hyn ar y dechrau, byddai wedi arbed llawer iawn o ddioddef!

C Ysgrifennwch CYWIR neu ANGHYWIR ar ôl pob un o'r canlynol:-

Anfonodd Pharo am Moses ac Aaron y bore wedyn .....

Dywedodd wrthynt am adael yr Aifft ar unwaith .....

Dywedodd nad oedd yr Israeliaid i fynd â'u hanifeiliaid gyda nhw .....

Cyn hir, roedd yr Israeliaid ar eu ffordd. Gorymdeithiodd cannoedd o ddynion, merched a phlant i gyfeiriad y Môr Coch. Ond doedden nhw ddim wedi mynd yn bell pan newidiodd Pharo ei feddwl. Penderfynodd fynd â'i fyddin, a gorfodi'r Israeliaid i ddod nôl. Yn fuan, trodd hapusrwydd yr Israeliaid yn ofn, pan welsant gerbydau a marchogion yr Eifftiaid yn eu dilyn.

C Gosodwch y llythrennau cywir yn y brawddegau canlynol:

N __ **w** __ **d** __ __ **d** __ **y** Brenin Pharo ei feddwl.

I __ __ __ **e l** __ __ __ __ oedd yr enw ar y caethweision oedd yn ffoi.

Roedden nhw'n mynd i gyfeiriad y **M** __ __ __ __ __ **h.**

Aeth Pharo a'i **g** __ __ **b** __ __ **a** __ ar eu hôl.

Cododd ofn mawr ar yr Israeliaid. Roedden nhw'n teimlo eu bod nhw mewn magl, oherwydd roedd y môr o'u blaen a'r Eifftiaid o'u hôl. Dim ond Duw allai eu hachub! Cysurodd Moses y bobl drwy ddweud wrthyn nhw: "Byddwch gadarn ac edrychwch ar y waredigaeth y mae'r Arglwydd yn ei rhoi i chwi heddiw." Byddai Duw, meddai, drwy Ei allu rhyfeddol, yn edrych ar eu holau, ac yn eu hachub rhag yr Eifftiaid. Beth wnaeth Duw? Agorodd lwybr drwy ganol y Môr Coch! Chwythodd gwynt cryf o'r dwyrain drwy'r nos. Ciliodd y dŵr a throdd y môr yn dir sych. Doedd dim angen i'r Israeliaid wneud dim, dim ond ymddiried yn Nuw a cherdded i'r ochr arall!

C Gosodwch yr atebion i'r cliwiau hyn, yn y Grid Geiriau.

1. Roedd y gwynt yn chwythu o'r .....

2. Defnyddiwyd y gwynt gan Dduw i greu tir .....

3. Chwythodd y gwynt drwy'r .....

4. Rhannwyd y ..... gan y gwynt.

	1	2		
			3	4
G	W	Y	N	T

4

Roedd yr Eifftiaid yn meddwl y gallen nhw ddilyn yr Israeliaid! I mewn â nhw ar gefn eu cerbydau a'u ceffylau i wely'r môr, ond trodd y dŵr yn ei ôl yn nerthol a boddwyd pob un ohonynt! Dyna beth oedd gwaredigaeth ryfeddol i'r Israeliaid!

Lliwiwch eiriau'r Adnod Allweddol.

"Achubodd yr Arglwydd Israel y diwrnod hwnnw."

6

Exodus 14: 30

Heddiw, mae Duw eisiau achub pob un ohonom ni oddi wrth ein pechodau. Dyna pam y rhoddodd Ef yr Arglwydd Iesu i farw drosom ni. Fel yr Israeliaid, rhaid i ni ymddiried Ynddo ac yna gallwn ddweud "Mae'r Arglwydd wedi F'ACHUB I!"

Enw

DARLLENWCH
Exodus 15: 1-22

ADNOD ALLWEDDOL
Psalm 106: 1

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 4 Moses a'r Israeliaid yn diolch i Dduw

Pan wawriodd y bore, roedd pob un o'r Israeliaid wedi croesi'r Môr Coch yn ddiogel. Fydden nhw fyth eto'n gaethweision yn yr Aifft! Ar hyd glan y môr, gorweddai cyrff yr Eifftiaid oedd wedi boddi! Oherwydd yr hyn a ddigwyddodd, roedd gan yr Israeliaid barch mawr at Dduw, a hefyd at Ei was, Moses. Roedden nhw'n gwybod mai Duw oedd wedi eu hachub!



C Ysgrifennwch:

Enw'r môr roedden nhw wedi ei groesi. _____

Enw'r wlad roedden nhw wedi ei gadael. _____

Enwau'r caethweision gafodd eu rhyddhau. _____

Enw eu harweinydd. _____

Pan fydd rhywun yn gwneud rhywbeth i'n helpu ni, rhaid i ni bob tro ddweud "Diolch yn fawr". Roedd yr Israeliaid yn awyddus i ddiolch i Dduw am eu hachub o law'r Eifftiaid, felly dyma nhw'n dechrau canu mawl i'r Arglwydd.
"Yr Arglwydd yw fy nerth a'm cân, ac ef yw'r un a'm hachubodd; ef yw fy Nuw" meddai geiriau eu cân.
Roedd Miriam, chwaer Moses gyda'r rhai oedd yn moliannu Duw. (Gweler adnod 20)

C Defnyddiwch y cliwiau isod i lanw'r bylchau yn y Grid Geiriau.

1. Enw arall am Dduw.
2. Yn eu cân, dywedasant fod yr Arglwydd wedi eu .....
3. Pan fydd rhywun yn ein helpu, dylem ddweud " ..... yn fawr".
4. Canodd yr Israeliaid am yr Arglwydd fel eu .....



8

Mae'r Adnod Allweddol yn dweud wrthym pam y dylem ni ddiolch i Dduw.

"Diolchwch i'r Arglwydd,

oherwydd da yw."

4

Lliwiwch y llythrennau.

Meddyliwch pa mor garedig yw Duw wrthoch chi!

C Gosodwch y geiriau canlynol yn y bylchau cywir.

blodau **ddŵr** **Waredwr** **bwyd**

Mae Duw yn rhoi __ __ __ __ i ni i'w fwyta.

Llanwodd Duw'r ddaear â phlanhigion a __ __ __ __ __ __ hardd.

Rhoddodd Ef __ __ __ __ i ni i'w yfed.

Ond yn fwy na dim, anfonodd Ef yr Arglwydd Iesu i fod yn __ __ __ __ __ __ __ i ni.

4



Fyddwch chi wir yn moli Duw am Ei roddion i chi? Dangoswch Iddo eich bod yn wirioneddol ddiolchgar drwy dderbyn yr Arglwydd Iesu i mewn i'ch bywyd, fel eich Gwaredwr personol.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120